

BA Dylunio Graffeg
Ways of Perceiving (ADDA4023)

Traethawd: curadu arddangosfa ddychmygol


Nifer o eiriau: 1,555

Llyfryddiaeth 22ain o Ebrill 2024

Curadu arddangosfa ddychmygol:

Hiraeth

Ar gyfer fy arddangosfa curadu, dewisais i ymchwilio y thema o hiraeth. Deilliwyd y cysyniad o hiraeth o'r ddau air Groeg *nostos* sydd yn golygu 'dychwelyd adref' ac *algos* sydd yn golygu 'poen' neu 'hiraeth' (Hoge, 2024). Caiff ei ddiffinio fel 'a sentimental yearning for the past that evokes feelings of pleasure with occasional notes of sadness' (Sheikh, 2024), fel arfer pan rydym yn meddwl am atgofion ystyrlon. Gobeithiaf ddatgan y cysyniad o hiraeth trwy y darnau a ddewisais canys 'it can connect us to beloved traditions, subjects, genres or styles' (Beardsley, 2021) a gobeithiaf ddadansoddi sut mae hiraeth yn dylanwadu gwaith celf yn athronyddol ac yn seicolegol. Mae hiraeth yn cael ei ddisgrifio fel 'driving force' (Beardsley, 2021) o fewn celf, ac y gobaith yw bydd yr arddangosfa yma yn fy helpu adlewyrchu ar fy nhaith fel artist ac hefyd beth sydd wedi fy helpu cyflawni nodau yn fy mywyd.



1. Soar y mynydd, Ogwyn Davies, 20fed ganrif

Uchod yw y paentiad ‘Soar y mynydd’ gan yr artist Ogwyn Davies. Lleolwyd y capel yng Ngheredigion lle treuliodd Davies 30 mlynedd yn dysgu celf yn ysgol uwchradd Tregaron. Mae y paentiad yn datgan elfen personol iawn o gynrychioli ei angerdd dros gelf ac ei gartref yn yr un paentiad. Trwy ei yrfa fel artist, ffocysodd Davies ar greu gwaith a oedd yn gysylltiedig â gwreiddiau a thiroedd Cymru, yn dangos ei ddiddordeb ‘of the mysterious and the spiritual in pictures tinged with a Celtic melancholy’ (Buckman, 2006). Deilliodd yr enw ‘Soar’ o y llyfr Genesis yn y Beibl sydd yn ategu at dir sanctaidd, a gallwn weld elfen personol Davies o ei gysylltiad ysbrydol trwy y gludlun o emynau dros y ganfas. Gallwn weld bod y teipograffeg aur sydd â geiriau megis ‘DYMA GARIAD’ yn cyferbynnu ag ardaloedd tywyll y mynydd ac hefyd y teipograffeg tywyll. Gyda y beddau hefyd sydd yn cynrychioli adlewyrchiad dros daith unigolyn o fywyd yn wynebu yr holl elfennau crefyddol,

awgrymir bod y baentiad yn drosiad o hiraeth; gyda emosiynau melys a thrist yn bresennol wrth gydnabod atgofion o ddiwylliant yr ardal. Llwyddodd Davies i gyfleu bod gerddoriaeth yn elfen cryf o hiraeth oblegid mae'n ymddwyn fel 'a bridge to our past' (Whitman, 2023).

Yn cyferbynnu â'r elfen cerddorol, cafodd y paentiad yma ei greu trwy gymysgu pridd ffisegol a phethau eraill naturiol. Mae'r elfen o hiraeth yn gryf iawn o geisio galluogi'r wylwr i ddychmygu bod yn y lleoliad yr un pryd yr ydym yn edrych ar y paentiad trwy ei elfen ffisegol. Mae'r cymysg o elfennau ffisegol a cherddorol yn atgyfnerthu hiraeth Davies o'r ategiad tuag at y thema o dir sanctaidd, yn awgrymu ei fod yn disgrifio ei fywyd fel artist fel pererindod, sef taith crefyddol.



2. *Sunset lighthouse (Van Gogh style), Elena Dmitrenko, 2021*

Cafodd y paentiad olew ‘Sunset lighthouse’ ei greu gan Elena Dmitrenko yn 2021, sy’n cyfleu goleudy yn ystod cyfnod machlud haul. Mae’r ffaith cafodd y paentiad ei greu yn ôl dylanwad Van Gogh yn symbol o adlewyrchu ar emosiwn yn y gorffennol wrth i ni gydnabod gwaith Van Gogh, a sut mae wedi dylanwadu gwaith celf o flaen ei amser. Mae goleudy yn arwyddocaol o ‘protection and a safe haven, providing reassurance and security’ (Volpe, 2024) sy’n atgyfnerthu’r awyrgylch cartrefol mae’r paentiad yn cynnig. I ategu at hyn,

swyddogaeth goleudy ydy helpu tywys y ffordd adref i bobl allan ar y môr; mae'r paentiad yn cynnig cyfle i ni werthfawrogi'r atgofion cartrefol wrth edrych arni, fel ein bod yn edrych trwy lens y goleudy i groesawu'r atgofion nôl atom. Gallwn ddadlau bod y thema coch yn datgan awyrgylch rhamantus yn ategu at atgofion cariadus, ond ar y llaw arall gellir dehongli awyrgylch llawn dicter gyda phatrwm y lliwiau yn debyg i liwiau tân. Mae hiraeth yn gallu fod yn thema positif neu negatif, ac mae'r paentiad yn cynnig yr ewyllys i bobl teimlo yr ystod o emosiynau sydd angen iddynt deimlo.



Étude in Ab Major
Opus 25 No. 1

Fryderyk Franciszek Chopin Frédéric François Chopin
(1810 - 1849)

Allegro sostenuto (♩ = 104)

Piano

3. *Étude Op. 25, No. 1, Frédéric Chopin, 1836 (perfformwyd gan Daniel Barenboim, 2020)*

Dewisais i gynnwys perfformiad cerddorol yn fy arddangosfa curadu sef Étude Op. 25 No. 1 ar y piano gan Chopin, a berfformiwyd gan Daniel Barenboim. Y rheswm dros hyn oedd i

ddangos gallech ddarganfod hiraeth trwy gyfryngau eraill fel sain yn ogystal ag yn weledol.

Mae dylanwad seicolegol cryf wrth i ni wrando ar gerddoriaeth a ddarganfyddwyd

blynyddoedd yn ôl lle mae ganddo ‘enormous power to evoke memories in the listener’

(Gillespie, 2018) yn ogystal â’r dylanwad seicolegol o gerddoriaeth o fod yn ‘associated

with feelings of being loved’ (Routledge et al, 2011); a fel Ogwyn Davies, yn ysgogi ‘sense of

meaning and purpose in life’ (Routledge et al, 2011). Er yr effeithiau seicolegol, mae

perfformiadau piano yn gysylltiedig yn gryf gyda diwylliant a hanes Cymru fel ei rôl

arwyddocaol o fod yn offeryn boblogaidd yn yr Eisteddfod; gwerth craidd Cymru ynglyn â

hanes a diwylliant (National Library of Wales, 2022). Mae’r darn piano yma gan Chopin yn

dynwared strwythur y delyn aeolian, gan arddangos nodweddion yr offeryn trwy’r nodau byr

a chyflym. Mae cyfuno’r nodau hyn â’r alaw pleserus a hiraethus yn adlewyrchu ar

ddatblygiad a thaith y delyn aeolian, gan greu perfformiadau fel yr un uchod.



4. View of Snowdon in Winter, Kyffin Williams, 1952

Dyma baentiad cafodd ei greu gan Kyffin Williams o'r Wyddfa yn y gaeaf wedi ei leoli yn yr oriel Glynn Vivian, ac yn debyg i'r paentiad goleudy cafodd y darn o gelf yma ei greu gyda paint olew. Mae'r paentiad yn barod yn datgelu ymdeimlad cartrefol gan elfennau naturiol y paentiad gyda'r mynyddau a lliwiau tywyll adnabyddus o dir Cymru yn y gaeaf. Y dechneg cafodd ei ddefnyddio i greu y paentiad yma oedd gyda cyllell palet, a gallwn weld hyn trwy'r marciau a'r haenau sydd yn cael ei ddefnyddio ar y canfas. Mae'r syniad o gyllell yn ategu at thema o deimladau aneswmwyth ac fel arfer yn cael ei ystyried fel gwrthrych peryglus. Gallwn dadlau bod y dechneg cafodd y paentiad ei greu wedi cyfuno â'r lliwiau tywyll yn ategu at awyrgylch negatif o hiraeth yr ardal yma yn y gaeaf, yn cyferbynnu efo'r hiraeth bositif o gydnabod y tir Cymraeg. Yn hanesyddol, caiff yr Wyddfa ei ddisgrifio fel 'a very dangerous place for the unprepared or inexperienced' (Snowdoninfo, 2024) ag felly yn atgyfnerthu'r ffaith bod y rhai sydd yn gyfarwydd â'r ardal yn ymwybodol am yr elfen iasol sydd yn bodoli adeg y gaeaf.



5. Abertawe, Alexander Frederick Rolfe, 1840

Dyma baentiad o Abertawe nol yn 1840 gan Alexander Frederick Rolfe sydd hefyd wedi ei leoli yn yr oriel Glynn Vivian, yn dangos beth oedd diwylliant yr ardal fel pryd ni. Dewisais y paentiad yma canys ffeindiais hi'n ddiddorol i gymharu Abertawe nawr i'r ardal nol yn 1840 a chydabod sut mae pethau wedi datblygu a newid mewn i'r ddinas sy'n bodoli heddiw. Yn seicolegol, wrth edrych ar y paentiad yma byddwn yn teimlo'r elfen cryf o hiraeth yn naturiol oblegid rydym yn adlewyrchu nol ar Abertawe wrth fod yn Aberatwe ar yr un pryd. Er ein bod yn meddwl am atgofion hapus wrth edrych ar y paentiad, gallwn ddadlau bod y paentiad wedi cael ei rhamanteiddio'n fwy nag sydd angen i greu'r awyrgylch hiraethus positif rydym yn teimlo wrth edrych arni. Wrth ystyried yr elfen hanesyddol o'r ardal nol yn y pedwerydd ganrif ar bymtheg, 'Swansea was overcrowded, dirty and unsanitary' (Digs

Swansea, 2021) ac yn ystod y cyfnod cafodd y paentiad yma ei greu, roedd ‘epidemics of cholera in Swansea in 1832 and 1849’ (Digs Swansea, 2021) ag felly dydy’r paentiad ddim yn datgan yr holl hanes ac awyrgylch briodol oedd yn yr ardal ar y pryd. Gyda’r elfennau megis yr haul yn machlud ar y bobl a’r tirwedd, mae’n galluogi ni i edrych trwy lens wedi ei arlliwio i weld popeth mewn ffordd delfrydol yn hytrach na ystyried wir hanes yr ardal, sydd yn gwneud i ni teimlo hiraeth celwyddol. Ag felly wrth ddod at gasgliad, credaf nad yw’r paentiad yma yn esiampl dda o ddatgelu’r thema o hiraeth canys yr holl ffactorau sydd wedi cael ei ddefnyddio i guddio hanes yr ardal yn y paentiad.



Lleoliad yr arddangosfa curadu; harbwr Porth Tywyn (ochr gorllewin)

Dyma ble byddai’n cynnal yr arddangosfa sef harbwr Porth Tywyn, yr ochr gorllewin. Y rheswm dros hyn yw’r gysylltiad personol cryf sydd gennai gyda’r lle yma, lleoliad ble rwyf

wedi teimlo'r holl emosiynau trwy feddwl am atgofion digwyddodd yma, sef prif thema hiraeth. Hefyd, wrth i'r llanw fynd allan yn ystod yr adeg llanw uchel i lanw isel, mae yna cerrynt sy'n bodoli yn yr harbwr lle mae'r dwr yn llifo un ffordd tuag at y môr wrth iddo agosau at lanw isel. Teimlaf fod hyn yn symbolaidd o daith artist, wrth i'r emosiynau wedi'u cyfuno â'r atgofion yn llifo trwy fywyd, yn cydnabod pob atgof ac emosiwn yn uniongyrchol ar y ffordd; yn debyg i Ogwyn Davies lle ffocysodd ar dir Cymraeg â oedd yn bersonol iddo ef. Yn wahanol i'r elfennau personol, fel disgrifiwn yn y paentiad olew o'r goleudy gan Elena Dmitrenko, mae goleudy yn symbolaidd o 'protection and a safe haven, providing reassurance and security' (Volpe, 2024) ag felly bydd hwn yn lleoliad lle gallech teimlo'n ddiogel a rhywle bydd yn datgan awyrgylch heddychlon wrth gydnabod y daith o emosiynau ac atgofion bydd yr arddangosfa yn datgelu.

Llyfryddiaeth

Beardsley, D. (2021) *The role of nostalgia in art*. Ar gael trwy: <https://ranchlands.com/blogs/journal/the-role-of-nostalgia-in-art>. (Cyrchwyd: 19eg o Ebrill 2024)

Buckman, D. (2006) *Artists in Britain since 1945*. Ar gael trwy: <https://artuk.org/discover/artists/davies-ogwyn-19252015>. (Cyrchwyd: 19eg o Ebrill 2024)

Digs Swansea (2021) *The History of Swansea*. Ar gael trwy: <https://www.digsswansea.biz/the-history-of-swansea#:~:text=The%20population%20of%20Swansea%20grew,overcrowded%2C%20dirty%2C%20and%20unsanitary>. (Cyrchwyd: 19eg o Ebrill 2024)

Gillespie, K. (2018) *The science behind music's nostalgic power*. Ar gael trwy: <https://www.vice.com/en/article/43bxpn/the-science-behind-musics-nostalgic-power>. (Cyrchwyd: 19eg o Ebrill 2024)

Hoge, A.J. (2024) *What is the meaning of nostalgia?* Ar gael trwy: <https://effortlessenglishclub.com/what-is-the-meaning-of-nostalgia>. (Cyrchwyd: 19eg o Ebrill 2024)

National Library of Wales. (2022) *History of the National Eisteddfod*. Ar gael trwy: <https://www.library.wales/discover-learn/education/learning-resources/the-national-eisteddfod-of-wales/history-of-the-national-eisteddfod#:~:text=The%20beginning%3A%20In%201176%20Lord,the%2015th%20and%2016th%20centuries>. (Cyrchwyd: 19eg o Ebrill 2024)

Routledge et al. (2011) *Music-Evoked Nostalgia and Wellbeing During the United Kingdom COVID-19 Pandemic: Content, Subjective Effects, and Function*. Ar gael trwy: <https://www.frontiersin.org/journals/psychology/articles/10.3389/fpsyg.2021.647891/full> (Cyrchwyd: 19eg o Ebrill 2024)

Sheikh, Z. (2024) *What to know about nostalgia*. Ar gael trwy: <https://www.webmd.com/balance/what-to-know-about-nostalgia> (Cyrchwyd: 19eg o Ebrill 2024)

Snowdon (Yr Wyddfa) info (2024) *Walking up Snowdon in winter*. Ar gael trwy: <https://snowdoninfo.com/snowdon-in-winter/> (Cyrchwyd: 19eg o Ebrill 2024)

Volpe, A. (2024) *What do lighthouse symbolize? 13 things lighthouses represent*. Ar gael trwy: <https://www.beaverdamwoodworks.com/what-lighthouses->

[symbolize#:~:text=Lighthouses%20often%20serve%20as%20prominent,beacon%20of%20hope%20and%20protection](#). (Cyrchwyd: 19eg o Ebrill 2024)

Whitman, L. (2023) *Music nostalgia: The deep psychological impact of youth music on senior emotions*. Ar gael trwy:<https://memorycherish.com/music-nostalgia/#:~:text=The%20Sociology%20of%20Music%20Nostalgia,a%20different%20time%20and%20place>. (Cyrchwyd: 19eg o Ebrill 2024)